HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Deddf Ynni 2004 grëodd yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear fel corff cyhoeddus gweithredol an-adrannol a noddir gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddiol (BERR yn fyr yn y Saesneg).

Ar darian yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear mae dwy golofn ddu sy'n cynrychioli craidd yr adweithydd; cynrychiola'r disgiau gwyn y sianeli tanwydd a'r atomau sy'n rhoi ynni. O'r naill du iddynt, mae ffens palisâd sy'n cynrychioli'r amddiffyniad a gynigia'r Awdurdod a'r Heddlu i bob tu.

Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi aelodau'r Awdurdod Heddlu. Mae gan Yr Awdurdod Heddlu gadeirydd annibynnol, dau aelod annibynnol a phedwar aelod sy'n cynrychioli'r diwydiant niwclear.

Swyddogaeth yr Awdurdod yw sicrhau bod yr Heddlu Sifil Niwclear yn effeithlon ac effeithiol a'i fod yn cyfarfod â gofynion gwarchod y rhanddeiliaid yn y diwydiant niwclear yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodir gan yr Awdurdod. Caiff amcanion a thargedau perfformiad yr Heddlu eu cytuno rhwng y Prif Gwnstabl a'r Awdurdod a chânt eu cyhoeddi wedyn fel rhan o'r *Cynllun Gwarchod Strategol Tair Blynedd* (y gellir ei weld ar ein gwefannau: www.cnpa.police.uk and www.cnc.police.uk).

Un o amcanion allweddol yr Awdurdod yw gwneud yn siwr bod gweithredoedd yr Heddlu yn parhau yn effeithiol yn unol â safonau diogelwch a osodir gan y Cyfarwyddwr Diogelwch Sifil Niwclear. Mae'r Awdurdod yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth strategol gref ac atebolrwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n gyfrifol hefyd am fod yn gynyddol fwy agored a thryloyw o safbwynt gweithgareddau'r Awdurdod a'r Heddlu.

Caiff aelodau'r Awdurdod eu penodi yn unol â Rhan 1 Atodlen 10 y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn caniatáu rhwng 7 a 13 aelod. Caiff aelodau annibynnol eu penodi yn unol â'r Cod Ymarfer a ddosberthir gan y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Y cwmnïau sy'n rhedeg y safleoedd niwclear a gaiff eu gwarchod gan Yr Heddlu sy'n cynnig enwau rhai a gyflogir ganddynt fel darpar aelodau'r Awdurdod.